

Bwletin Mehefin 2017

Ysgol Uwchradd Bodedern



Hau i Fedi

www.ysgoluwchraddbodedern.org



@YUBoded



Urdd

**Eisteddfod yr Urdd
2017**

Pen-y-bont ar
Ogwr, Taf ac Elái



Llwyddiant Bodedern yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae'r ysgol yn falch iawn o'r holl ddisgyblion a gymrodd ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol boed hynny wrth gynrychioli'r ysgol, Aelwyd yr Ynys neu'r Uwch adran. Dau enw ddaeth i'r brig yn y cystadlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd Elain Rhys o flwyddyn 13 a'i chwaer Glesni o flwyddyn 10. Enillodd Elain y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth canu'r delyn o dan 19oed ac enillodd Glesni yr unawd canu i ferched o dan 19oed.



Glesni Rhys Jones, enillydd y
gystadleuaeth canu o dan 19oed.



Gwobr Dug Caeredin

Diolch i weithwyr ieuenctid yr awdurdod sef Sioned Sawicz, Sharon Bibby a Dylan Jones am hyfforddi cymaint o ddisgyblion blwyddyn 10 ar gyfer Gwobr Dug Caeredin. Yn ystod hanner tymor y Sulgwyn bu nifer ohonynt yn cymryd rhan mewn alldaith ar hyd arfordir Môn, gan gampio yn yr awyr agored. Her ychwanegol iddynt oedd cario eu holl adnoddau ar eu cefnau.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gwblhau'r her:

Leah Woolley, Ella Stanley, Ellie Owen, Emily Austin, Noa Would, Huw Evans, Lewis Riley, Owen Cain Roberts, Chantelle Jones a Louise Thomas.





Chwareon Tîm bechgyn athletau blwyddyn 10 wedi cyrraedd rownd Eryri.

Diolchodd Mr Tom Williams am ymdrechion y criw yn y gystadleuaeth gyda llongyfarchiadau arbennig i Liam Young am dderbyn y wobr gyntaf yn y ddisgen, Jack Evans cyntaf yn y pwysau a David Williams cyntaf yn y naid uchel. Da hogia!

Diolch!

Gyda'r flwyddyn academaidd yn dirwyn i ben, mae gwaith caled y cyngor ysgol yn parhau. Un tasg ddiweddar oedd helpu'r cynulliad i ddarganfod barn disgyblion ar draws Cymru am sefydlu Senedd Ieuencid Cymru gyfan. Diolch i swyddogion y cynulliad ac i'n cynrychiolydd ni yn y senedd Mr Rhun ap Iorwerth am ddod i holi barn ein disgyblion am faterion gwleidyddol a lleol, o hawliau unigolion o dan 16 i systemau ailgylchu'r awdurdod.



Tasg nesaf y cyngor ysgol yw ymateb i ymgynghoriad gwasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod. Yn yr hinsawdd o doriadau, mae'r cyngor yn llawn ymwybodol o effaith toriadau arnynt. Y gobaith yw y bydd cynrychiolaeth o'r cyngor yn mynd i'n cynrychioli ar Senedd Ieuencid Cymru.

Presenoldeb

Mae ymgyrch yr ysgol ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion yn parhau. Rydym yn parhau i dargedu disgyblion a chefnogi teuluoedd sydd â chanrannau presenoldeb sy'n codi consyrn ond mae'n bwysig cydnabod presenoldeb da hefyd! Y tro hwn - 9A oedd yn derbyn brecwast Mr Griffiths. 9A law oedd â'r ganran gyfartaledd fwyaf rhwng 2 arolwg. Da iawn chi.



Alzheimer's UK



Yn dilyn cais gan Elen, Annest, Ceri, Ffion, Elliw ac Ellie o flwyddyn 10, cynhaliwyd bore coffi a raffl i godi arian ar gyfer yr elusen Alzheimer UK. Diolch i waith caled y merched codwyd dros £166 tuag at yr elusen, gyda gobaith o fwy i ddod. Yn y llun gwelwn y merched yn gwerthu cacennau i Jac ac Elin o flwyddyn 7.

Llongyfarchiadau i gynifer o'n disgyblion am lwyddiannau unigol a sirol yn rali'r Ffermwyr Ifanc. Yn ogystal, da oedd clywed fod Môn wedi dod yn 6ed yng nghystadleuaeth diwrnod gwaith maes a gafodd ei gynnal yng nghae sioe Primin.

Gwych oedd clywed am lwyddiant Mathew Jones o flwyddyn 11 yn cael ei ddewis i dreialon tîm Cymru o dan 16 ar gyfer y rygbi cynghrair. Pob lwc i ti Mathew.

Llongyfarchiadau i Sïon Emlyn a Jack Lander o flwyddyn 13 ac i Dewi Phillips o flwyddyn 11. Mae'r tri wedi eu derbyn fel prentisiaid i weithio i Horizon ym mis Medi. Deallir eu bod wedi cael eu dewis o blith tua 300 o ymgeiswyr.

Y ddiweddar cafodd yr ysgol y fraint o gynnal diwrnod cystadleuaeth Athletau Ysgolion Cynradd yr Urdd ar ein caeau ysgol. Diolch i ddarpar fyfyrwyr TGAU Addysg Gorfforol, a fu'n cynorthwyo fel stiwardiaid ar y diwrnod. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Urdd, a'r flwyddyn hon bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 8 fynychu wythnos o weithgareddau yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan-Ilyn.

Pob lwc i Hannah Jones a Courtney Williams sy'n cystadlu mewn cystadlaethau gymnasteg ac i Ceri Thomas sy'n cystadlu mewn gemau pêl droed yng ngemau'r ynysoedd fydd yn cael eu cynnal yn Gotland, Sweden .

Fel yr hysbysir yn llyfrau cyswllt ein disgyblion, mae cyfle i aelodau'r Urdd fwynhau amser cinio gyda Seiriol a Rhodd mewn gemau a gweithgareddau hwyl. Bydd y clwb yn parhau pob amser cinio Dydd Mawrth tan ddiwedd y tymor.